

**Eitem: 16**

**Teitl: Rhagolwg a Rhaglen Waith y Bwrdd 2024-2025**

<b>Gweithredu / Action required</b>	Am sicrwydd a gwybodaeth.
<b>Amseru / Timing</b>	Arferol
<b>Argymhelliad / Recommendation</b>	Gofynnir i'r Bwrdd nodi'r Flaenraglen Waith y cytunwyd arni ar gyfer y Bwrdd. Cymeradwywyd y Flaenraglen Waith gan y Bwrdd yn ei gyfarfod ddiwedd Ebrill 2024 a bydd yn cael ei hadolygu ym mhob Cyfarfod Bwrdd.
<b>Risg / Risk</b>	Mae'n bwysig bod gan y Bwrdd gynllun blynyddol o fusnes, dysgu a datblygiad y Bwrdd. Bydd hyn yn helpu'r Bwrdd i gwrdd â'i anghenion datblygu cyffredinol a darparu eglurder o ran patrwm ei gyfarfodydd. Heb y dull arferol hwn, mae risg na fydd y Bwrdd yn cyflawni ei amcanion ac na fydd yn cyflawni ei gyfrifoldebau o ran llywodraethu da, agoredrwydd a thryloywder.
<b>Cyllid / Finance</b>	Bydd rhai goblygiadau ariannol wrth gyflwyno Cyfarfodydd Bwrdd, Sesiynau Briffio, a dysgu/datblygu ar gyfer y Bwrdd. Fodd bynnag, caiff hyn ei asesu a'i werthuso'n rheolaidd a chaiff ei ariannu o'r cyllidebau presennol.
<b>Amcan cynllun blynyddol / Annual plan objective Amcan cynllun strategol / Strategic plan objective Amcan cynllun 100 diwrnod / 100 day plan objective</b>	Mae'r Flaenraglen Waith hon ar gyfer y Bwrdd wedi'i chynllunio i alluogi a hwyluso cyflawni amcanion y sefydliad mewn dull cynlluniedig ac agored.
<b>Cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant / Equity, diversity and inclusion</b>	Bydd materion tegwch, amrywiaeth a chynhwysiant yn ymddangos ar raglen ddysgu a datblygu'r Bwrdd fel eitemau penodol ac fel nodweddion eitemau eraill.
<b>Cyfathrebu / Communications</b>	Ticiwch un o'r blychau canlynol os bydd y gweithgaredd hwn yn cael effaith ar:

	<p><b>Mewnol:</b> ein pobl ☒</p> <p><b>Allanol:</b> ein cwsmeriaid/partneriaid/rhanddeiliaid ☒</p> <p><b>Allanol:</b> enw da ein sefydliad ☒</p>
<b>Cymeradwyaeth / Approval/Clearance</b>	Mae'r papur hwn wedi'i gymeradwyo gan y Prif Weithredwr.
<b>Trafodaethau neu penderfyniadau blaenorol / Previous discussions or decisions</b>	<p>Cytunodd y Bwrdd ar flaenraglen waith ar gyfer 2023/2024. Mae'r Rhaglen Waith hon a'r Rhagolwg wedi'u datblygu ar ôl i'r Bwrdd gynnal adolygiad wedi'i hwyluso'n annibynnol o'i effeithiolrwydd ei hun ym mis Chwefror 2024. Cwblhawyd y rhaglen waith yn Sesiwn Briffio'r Bwrdd ar 27 Mawrth 2024 a'i chymeradwyo gan y Bwrdd yn ei gyfarfod ddiwedd Ebrill 2024.</p>
<b>Awdur/Cyflwyno / Author/Presenting</b>	Ysgrifennydd Dros Dro'r Bwrdd
<b>Dyddiad / Date</b>	17 Medi 2024
<b>Cefndir / Background</b>	
<p>Cytunodd y Bwrdd ar flaenraglen waith ar gyfer 2023/2024. Datblygwyd y Rhaglen Waith a'r Rhagolwg ar gyfer 2024/2025 ar ôl i'r Bwrdd gynnal adolygiad wedi'i hwyluso'n annibynnol o'i effeithiolrwydd ei hun ym mis Chwefror 2024 a nodi ei amcanion allweddol ar gyfer 2024/2025. Cwblhawyd y rhaglen waith a'r ddogfen yn Sesiwn Briffio'r Bwrdd ym mis Mawrth 2024 a'u cymeradwyo gan y Bwrdd ar 24 Ebrill 2024.</p> <p>Ychwanegiad allweddol i'r blaengynllun yw'r gydnabyddiaeth gan y Bwrdd bod angen cyfarfod cyhoeddus ychwanegol o'r Bwrdd yn y flwyddyn i ddod. Ychwanegwyd y cyfarfod ychwanegol hwn ar gyfer mis Mawrth 2025. Bwriad y Bwrdd yw symud i 6 chyfarfod Bwrdd cyhoeddus yn 2026.</p> <p>Mae'r rhaglen waith a'r rhagolwg yn atodedig. Yr eitemau hynny sydd wedi'u marcio mewn coch yw'r rhai a gynlluniwyd ond nad ydynt wedi'u cyflawni eto. Bydd y rhain yn cael eu haildrefnu.</p>	
<b>Manylion / Detail</b>	
<p>Gofynnir i'r Bwrdd nodi'r Flaenraglen Waith wedi'i diweddarau a'r cylch cyfarfodydd. Bydd y Cadeirydd, y Prif Weithredwr ac Ysgrifennydd Dros Dro'r Bwrdd yn adolygu'r Rhaglen Waith yn gyson a bydd unrhyw newidiadau perthnasol yn cael eu cytuno gyda'r Bwrdd.</p>	